# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO** | **PLANNING POLICY COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 14 MAI 2025 am 2.00 o'r gloch yp** | **WEDNESDAY, 14 MAY, 2025 at 2.00 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THROUGH ZOOM** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Mrs Mairwen Hughes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol/The Independent Group**

Ieuan Williams **(Cadeirydd/Chair)**

**Plaid Lafur / Wales Labour Party**

Pip O'Neill

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts, Ken Taylor, Robin Williams

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Jeff Evans, Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones

*Nodwch os gwelwch yn dda bod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2 YMDDIHEURIADAU**

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Hydref, 2024.

**5 PAPUR MATERION ALLWEDDOL, GWELEDIGAETH AC AMCANION** (Tudalennau 5 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

**6 DIWEDDARIAD AR Y BROSES GALW AM SAFLEOEDD - ER GWYBODAETH YN UNIG** (Tudalennau 25 - 26)

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Ll Jones, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Nicola Roberts a Ken Taylor |
| **WRTH LAW:** | Uwch Swyddog Cynllunio (DFJ),<br>Rheolwr Polisi Cynllunio (JIW),<br>Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio (LW),<br>Cyfreithiwr Cynllunio (LM),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes MBE, Jackie Lewis, Robin Williams a Liz Wood |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Ieuan Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio.

**2 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim wedi'u derbyn.

**4 COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir.

**5 CYTUNO AR YR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL A DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y CYTUNDEB CYFLAWNI**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Rheolwr Polisi Cynllunio fod yr adroddiad yn cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi'i gyflwyno er mwyn cael cytundeb arno cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac i ddiweddaru aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cyfraniad Cymunedol. Dywedodd fod y Cynllun Datblygu Lleol angen ei fonitro'n flynyddol, a rhaid cyflwyno adroddiad yn crynhoi bob cyfnod monitro i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw'r adroddiad cyntaf gan yr Awdurdod hwn ar ôl i'r gwaith gyda Chyngor Gwynedd ddod i ben. Mae'r adroddiadau'n

adlewyrchu pa mor effeithiol yw polisïau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol, ac mae hefyd yn ddarn pwysig o dystiolaeth ar gyfer adolygu'r Cynllun. Aeth ymlaen i ddweud bod yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn rhestru 9 prif ganfyddiad, a chyfeirir atynt o fewn yr adroddiad. Cyfeiriodd yn benodol at:-

- Y caniatâd a roddwyd ar gyfer 178 uned preswyl newydd yn ystod 2023/2024;
- Cwblhau 53 o unedau tai preswyl yn 2023/2024, sy'n 30% o'r gwaith a gwblhawyd eleni;
- Nodi bod 4747 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad sylfaenol (2011) a 2022/23, ond mae'r taflwybr yn nodi ffigwr o 5663 uned.
- Mae 59% o'r unedau tai a ganiatawyd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 11.2% o unedau wedi'u caniatáu o fewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol, gyda 29.8% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad Agored.
- Caniatawyd 1 safle eithriad tai fforddiadwy (8 uned) yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol, caniatawyd 2 annedd menter gwledig ac 1 annedd fforddiadwy mewn cefn gwlad agored.
- Gwrthodwyd 5 allan o 8 apêl i PEDW yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn a chaniatawyd y 3 arall. Golyga hyn bod y gyfradd gwrthod apêl yn 63%.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Newid Hinsawdd fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi profi'n effeithiol. Dywedodd, wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod, y bwriad yw adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ac y bydd y Cynllun yn fuddiol i drigolion Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones ei fod yn gwerthfawrogi'r gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i baratoi'r adroddiad, ond dywedodd nad oedd Aelodau wedi cael digon o amser i ddarllen y ddogfen a gwneud sylwadau. Argymhellodd y byddai angen cyfarfod anffurfiol er mwyn galluogi Aelodau i graffu ar y ddogfen. Dywedodd y Cadeirydd bod cyfarfod anffurfiol wedi'i gynnal yr wythnos ddiwethaf pan gyflwynwyd yr adroddiad hwn i Aelodau'r Pwyllgor. Dywedodd bod rhaid cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y penawdau o fewn yr adroddiad ynghylch Cymunedau Diogel, Iechyd a Llesiant, yn ogystal â'r Cymunedau Cymraeg Bywiog. Dywedodd eu bod yn rhoi ystyriaeth i ddyfodol cymunedau lleol a sut mae'r boblogaeth yn newid yn y cymunedau hyn, yn ogystal â'r ffaith bod pobl sy'n Gymraeg iaith gyntaf yn symud i ffwrdd i fynd i brifysgol neu i weithio, ac yn symud i ardaloedd eraill ar yr Ynys. Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ystyried y materion hyn yn y dyfodol. Cyfeiriodd at y pennawd o fewn yr adroddiad yn ymwneud â Mannau Agored a mannau chwarae digonol ar gyfer plant mewn safleoedd wedi'u heithrio. Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Cynllun Datblygu Newydd fynnu bod datblygwr yn darparu iawndal ariannol ar gyfer mannau chwarae fel cronfa cynnal a chadw, er mwyn ysgafnu'r baich ar Gynghorau Tref a Chymuned i ofalu am y mannau hyn i'r safonau gofynnol.

Yn dilyn hynny, cafwyd diweddariad gan y Rheolwr Polisi Cynllunio ar gynnydd y Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cyfraniad Cymunedol. Dywedodd bod y Cytundeb Cyflawni wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024, er mwyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymeradwyaeth, a gellir gweithredu'r amserlen sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cyflawni yn unol â'r dyddiadau a ddarparwyd. Gofynnir bod copi o'r Cytundeb Cyflawni a llythyr eglurhaol Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gwneir hyn

unwaith y bydd fersiwn Llywodraeth Cymru o'r llythyr cytundeb wedi'i ddarparu. Dywedodd fod yr amserlen yn rhestru'r cam nesaf yn y broses, sef cyhoeddi 'galwad am safleoedd', a bydd hyn yn dechrau yn fuan fis Rhagfyr. Bydd y 'galwad am safleoedd' yn para am gyfnod o 8 wythnos. Dywedodd y Cadeirydd y byddai datganiad i'r wasg yn fanteisiol er mwyn cyhoeddi hyn.

Ni bleidleisiodd y Cynghorydd Robert Ll Jones.

**PEDNERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo bod Adroddiad Monitro Blynyddol 2023/2024 a'i ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Crymu erbyn 31 Hydref, 2024.**
- **Nodi'r materion yn ymwneud â'r Cytundeb Cyflawni a'r Cynllun Cyfraniad Cymunedol.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Dyddiad: | 14 Mai 2025 |
| Pwnc: | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn – Papur Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion |
| Aelod(au) Portffolio: | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Pennaeth/Cyfarwyddwr Gwasanaeth: | Christian Branch<br>Pennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| Awdur yr Adroddiad:<br><br>Ffôn:<br><br>E-bost: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br><br><br>johnwilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod Etholedig |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw canolbwyntio ar y canlynol:

- Gosod allan y materion allweddol mae'r Ynys yn ei wynebu dros gyfnod y Cynllun:
- Gosod allan gweledigaeth i'r Ynys dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd; a
- Gosod amcanion ar gyfer y CDLl newydd fydd yn helpu gwireddu'r weledigaeth.

**2.0 Y penderfyniad a geisir**

2.1 Cytundeb y Pwyllgor o'r Papur Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion fel sail i baratoi'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl newydd Ynys Môn.

**3.0 Y rheswm dros y penderfyniad**

3.1 Mae'r papur yn ran allweddol o ddatblygu'r strategaeth ar gyfer y CDLl newydd i Fôn.

**4.0 Cefndir ac ystyriaethau perthnasol**

4.1 Rhanwyd y papur (**Atodiad 1**) gyda aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio sydd wedi cael y cyfle i'w adolygu. Hyd yma, nid oes ymateb wedi bod i gynnwys y Papur.

4.2 Mae'r papur yn adnabod 17 mater allweddol ac her sy'n wynebu'r Ynys sydd yn ymwneud a spectrwm eang o bynciau ac mae amcanion clir a realistig wedi'u

dyfeisio i gyfarch a materion dan sylw. Mae'r rhain yn cyfrannu tuag at osod y weledigaeth ar gyfer y CDLl. Mae'r weledigaeth yn darllen fel a ganlyn:

> ***Erbyn 2039, bydd Ynys Môn yn ynys o gymunedau byrlymus, bywiog, dwy-ieithog a chysylltiedig ble bydd pobl yn dewis i fyw, gweithio ac ymweld, yn ymroddgar i wytnwch yr economi, diwylliant, treftadaeth, amgylchedd ac adnoddau naturiol yn ogystal ac i iechyd a llesiant.***

4.3 Gellir rhannu'r materion i gategorïau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fel sy'n cael ei ddangos yn y tabl isod:

| Cydran | Thêm | Amcanion |
|---|---|---|
| Amgylcheddol | Newid Hinsawdd | Newid hinsawdd a net sero |
| | | Carbon isel ac egni adnewyddol |
| Cymdeithasol | Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant | Yr iaith Gymraeg |
| Cymdeithasol | Tai ac Isadeiledd | Darparu tai newydd |
| | | Isadeiledd |
| | | Trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesiol |
| Economaidd | Economi Ffyniannus a Chynaliadwy | Cynllunio ar gyfer economi ffyniannus |
| | | Cefnogi economi wledig a ffarmio gref |
| | | Adfywio canol trefi |
| | | Economi ymwelwyr |
| Cymdeithasol | Creu Lleoedd a Llesiant | Hyrwyddo cymunedau iach a chynaliadwy |
| | | Cyfleusterau ac asedau cymunedol |
| | | Creu lleoedd lleol |
| | | Darparu ar gyfer llesiant |
| Amgylcheddol | Bioamrywiaeth a Rheoli Adnoddau | Diogelu a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol |
| | | Yr amgylchedd hanesyddol |
| | | Adnoddau mwynau |
| | | Adfer adnoddau a rheoli gwastraff |

4.4 Er mwyn gwireddu'r Weledigaeth ar gyfer y Cynllun, mae'r amcanion wedi eu dyfeisio a'u recordio o dan benawdau testun bras sydd yn alinio gyda'r amcanion strategol gosodwyd yng Nghynllun y Cyngor (2023-28), gyda'r testunau'n deillio o'r materion allweddol a'r heriau a'u hadnabwyd yn flaenorol.

4.5 Bydd y Weledigaeth a'r Amcanion bellach yn cael eu hymgorffori o fewn corff y Strategaeth a Ffefrir fydd yn nodi'r digwyddiad nesaf o ymgynghoriad cyhoeddus yn y broses o baratoi'r Cynllun.

## 5.0 Argymhelliad

5.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn cytuno'r Papur Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion fel sail i baratoi'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer CDLl newydd Ynys Môn.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

ynysmon.llyw.cymru
anglesey.gov.wale

# Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn

# Papur Materion Allweddol

## Drafft f1.2

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg
This document is also available in English

Cyngor Ynys Môn
cyngorynysmôn
cyngorynysmôn
cyngorynysmôn

# Hanes y ddogfen

| Fersiwn | Awdur | Adolygwyd gan | Awdurdodwyd gan | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1.0 | JIW | | | Drafft cyntaf ar gyfer dosbarthu ac arsylwadau |
| 1.1 | JIW | | | Adolygu yn dilyn sylwadau |
| 1.2 | JIW | | | Adolygu yn dilyn sylwadau pellach |
| | | | | |

DRAFFT

# CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.0** | **Cyflwyniad** | **4** |
| **2.0** | **Pwrpas** | **4** |
| **3.0** | **Materion, heriau a chyfleoedd allweddol** | **5** |
| **4.0** | **Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn 2039** | **14** |
| **5.0** | **Gosod Amcanion** | **14** |
| **6.0** | **Amcanion Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ynys Môn (2024-2039)** | **14** |

**ATODIADAU**

**Atodiad 1 - Cyngor Ynys Môn: Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol**


DRAFT

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn nodi'r blaenoriaethau a gweledigaeth glir ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Mewn perthynas â chynlluniau datblygu, dywed Cymru'r Dyfodol ei bod yn bwysig "bod cynlluniau datblygu yn ystyried y berthynas rhwng tai strategol, trafnidiaeth a thwf economaidd a'r iaith Gymraeg. Dylai cynlluniau datblygu gynnwys hierarchaethau a strategaethau aneddiadau i ddosbarthu twf mewn ffordd sy'n creu'r amodau i'r Gymraeg ffynnu ac i gael ei chadw fel iaith gymunedol mewn sawl man lle mae bywyd bob dydd yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg."

1.2 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd a fydd yn gwasanaethu ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn. Bydd y Cynllun yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau cynllunio ar yr Ynys hyd at 2039, a bydd y fersiwn derfynol a fabwysiedir yn cynnwys gweledigaeth a strategaeth ofodol y Cyngor i gyflawni'r gofynion datblygu sydd eisoes yn hysbys a'r rhai a ragwelir hyd at pan ddaw'r Cynllun i ben.

1.3 Mae nifer o faterion, heriau a chyfleoedd allweddol wedi'u nodi ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn adran 3.0 y ddogfen hon. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r pynciau hyn yn y papur, gan arwain at weledigaeth a gynigir ar gyfer yr Ynys a'r amcanion i'w gosod i wireddu'r weledigaeth honno.

## 2.0 Pwrpas

2.1 Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r prif faterion, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Ynys Môn, gweledigaeth ar gyfer yr Ynys dros gyfnod y Cynllun a gosod amcanion ar gyfer y Cynllun newydd a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth.

2.2 Mae'r ddogfen yn nodi 17 o faterion a heriau allweddol sy'n ymwneud â sbectrwm eang o fuddiannau. Mae amcanion clir a realistig wedi cael eu llunio i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i gyfrannu at weledigaeth newydd y CDLl. Bydd yr amcanion datblygu hyn yn gyrru datblygiad ar yr Ynys dros oes y Cynllun gyda'r polisïau a ddrafftiwyd wedyn yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau cynllunio gyda'r bwriad o sicrhau datblygu cynaliadwy a fydd o fudd i drigolion ac ymwelwyr â'r Ynys.

2.3 Wrth fynd ar drywydd nod datblygu cynaliadwy, bydd y Cynllun yn anelu at arwain y datblygiad cywir i'r mannau cywir a bydd yr uchelgeisiau hyn yn adlewyrchu mewnbwn rhanddeiliaid lleol.



DRAFT

## 3.0 Materion , Heriau a Chyfleoedd Allweddol

3.1 Mae'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn wedi cael eu pennu drwy ystyried deddfwriaethau, polisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, adolygu blaenoriaethau strategol y Cyngor ac ymgysylltu cychwynnol â rhanddeiliaid. Ar ben hynny, mae adolygiad o gynlluniau a strategaethau'r Cyngor, papurau pwnc a gasglwyd ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, yn ogystal ag Adroddiadau Monitro Blynyddol, wedi rhoi cipolwg gwerthfawr ar y materion y mae angen rhoi sylw iddynt.

3.2 O ystyried yr uchod, mae'r canlynol yn rhestru'r materion a'r heriau allweddol (o ran defnydd tir) a nodwyd i'w hystyried wrth baratoi'r CDLl newydd:

| Elfen | Thema | Amcanion |
|---|---|---|
| Amgylcheddol | Newid yn yr Hinsawdd | Newid yn yr hinsawdd a sero net |
| | | Carbon isel ac ynni adnewyddadwy |
| Cymdeithasol | Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant | Y Gymraeg |
| Cymdeithasol | Cartrefi a Seilwaith | Darparu cartrefi newydd |
| | | Seilwaith. |
| | | Trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol |
| Economaidd | Economi Gynaliadwy a Bywiog | Cynllunio ar gyfer economi ffyniannus |
| | | Cefnogi economi wledig a ffermio gref |
| | | Adfywio canol trefi |
| | | Economi ymwelwyr |
| Cymdeithasol | Creu Lleoedd a Lles | Hybu cymunedau iach a chynaliadwy |
| | | Asedau a chyfleusterau cymunedol |
| | | Creu lleoedd yn lleol |
| | | Darparu ar gyfer lles |
| Amgylcheddol | Bioamrywiaeth a rheoli adnoddau | Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol |
| | | Yr amgylchedd hanesyddol |
| | | Adnoddau mwynau |
| | | Adfer adnoddau a rheoli gwastraff |

### *Newid yn yr Hinsawdd a Sero Net*

3.3 Datganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020 a gwnaeth ymrwymiad i fod yn awdurdod carbon niwtral erbyn 2030. Yn dilyn hynny, cytunodd ar "Gynllun tuag at Sero Net 2022-2025". Mae'r Cynllun yn ymrwymo i'r argyfwng hinsawdd ac yn egluro sut bydd yr awdurdod yn dod yn sefydliad sero net.

3.4 Mae Cynllun y Cyngor (2023-2028) yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn gan gydnabod bod yr angen i weithredu yn wyneb newid yn yr hinsawdd erioed wedi bod mor hanfodol. Wrth wneud hynny, mae'n ymrwymo i ystyried newid yn yr



DRAFT

hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion sylfaenol wrth wneud penderfyniadau ar draws swyddogaethau'r Cyngor.

3.5 Yn yr un modd, mae Cynllun Llesiant Ynys Môn a Gwynedd 2023-28 yn nodi newid yn yr hinsawdd fel un o nifer o brif flaenoriaethau ar gyfer trigolion y ddwy sir, gan atgyfnerthu ei ymrwymiad i gefnogi cymunedau i gyrraedd targedau sero net. Felly, mae'r angen i weithredu yn wyneb newid yn yr hinsawdd yn cael ei ystyried yn fater pwysig i roi sylw iddo yn y CDLl newydd.

### *Carbon isel ac Ynni adnewyddadwy*

3.6 Mae'r angen i gefnogi a hwyluso ynni carbon isel fel ffordd o gyfrannu at gyrraedd targedau sero net wedi'i amlinellu yng Nghynllun y Cyngor o dan y Rhaglen Ynys Ynni. Gellir cyflawni hyn drwy annog datblygu cynlluniau ynni carbon isel lleol drwy weithio gyda Llywodraethau, datblygwyr a chymunedau. Mae cwmpas y buddsoddiad posibl yn y cyswllt hwn yn sylweddol a bydd yn sicr yn gwireddu manteision amgylcheddol ac economaidd i'r Ynys o ran cyfrannu at leihau allyriadau carbon a chreu swyddi ymysg eraill.

3.7 Mae'r Cyngor yn y broses o baratoi Cynllun Gweithredu Ynni Lleol. Gall hyn ddarparu sylfaen dystiolaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â datblygu buddsoddiadau carbon isel ac adnewyddadwy

3.8 Prynodd Llywodraeth y DU safle Wylfa ym mis Mawrth 2024 ar y sail ei fod yn cael ei ystyried fel y safle sy'n cael ei ffafrio ar gyfer gorsaf bŵer niwclear ar raddfa fawr. Er nad oedd unrhyw gynlluniau pendant wedi'u cadarnhau mewn perthynas â datblygu'r safle, bydd yn rhaid i'r CDLl newydd ystyried datblygiad posibl safle Wylfa yn ogystal â'r anghenion datblygu cysylltiedig. Bydd manteision economaidd ehangach prosiect o'r fath yn helpu i adfywio gogledd Ynys Môn, sydd ar hyn o bryd yn wynebu nifer o heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol.

3.9 Nod Rhaglen Ynys Ynni yw darparu cyfleoedd ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol a rhoi Ynys Môn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu ynni carbon isel. Bydd y CDLl newydd yn ceisio darparu sail polisi gadarn ar gyfer gwireddu manteision prosiectau mawr tra'n sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol a allai godi naill ai'n cael eu hosgoi neu eu lliniaru'n briodol.

### *Yr Iaith Gymraeg*

3.10 Mae Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg yn amcanu at gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

3.11 Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 y Cyngor yn amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu ei hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar yr Ynys. Mae'n bwriadu gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr, gan anelu at gynyddu nifer y siaradwyr 325 yn ystod oes y Strategaeth. Mae'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth, sef plant, pobl ifanc a'r teulu, y gweithle a'r gymuned.

DRAFT

3.12 Gellir priodoli'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg i nifer o ffactorau ond, yn bennaf, y diffyg cyfleoedd cyflogaeth i'r boblogaeth iau, sy'n eu gorfodi i chwilio am waith mewn mannau eraill, a'r diffyg tai fforddiadwy i alluogi pobl i fyw yn y cymunedau lle cawsant eu magu.

3.13 Er bod Ynys Môn yn draddodiadol yn cael ei hystyried yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar ynys wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhaid i'r CDLl newydd fynd i'r afael â'r dirywiad drwy ddatblygu polisïau cadarn sy'n ceisio diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. Bydd cynigion datblygu mwy yn ei gwneud yn ofynnol i ddatganiadau penodol neu asesiadau effaith gael eu cyflwyno i ddangos y camau a gymerir i ddiogelu, hybu a gwella'r Gymraeg.

### *Darparu cartrefi newydd*

3.14 Mae Cynllun y Cyngor yn nodi, fel un o'i brif amcanion, yr angen i sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref tra'n gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi anghenion tai a thrwy hynny alluogi darpariaeth briodol i ddiwallu'r angen hwnnw a'r deiliadaethau gofynnol.

3.15 Mae'r angen i gynllunio ar gyfer cartrefi newydd yn gosod heriau newydd gyda maint cyfartalog aelwydydd yn lleihau gan ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y galw am unedau llai yn dod yn fwy amlwg yn ogystal â pharhau i ateb y galw am gartrefi i deuluoedd.

3.16 Mae Strategaeth Dai y Cyngor yn cynghori bod 62% o bobl leol yn cael eu prisio allan o'r farchnad dai a, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae hyn yn golygu y bydd ystod eang o atebion tai sy'n cynnig amrywiaeth o ddaliadaethau yn allweddol i fynd i'r afael ag anghenion tai.

3.17 Mae'r anawsterau a brofir gan drigolion sy'n dymuno prynu neu rentu tai yn eu cymunedau wedi arwain at gyflwyno deddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ystyried dileu neu gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir (drwy roi cyfarwyddyd o dan Erthygl 4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995) mewn perthynas â newid defnydd prif gartrefi yn ail gartrefi neu lety gwyliau tymor byr. Bydd yr angen i fynd i'r afael â'r mater hwn yn gofyn am ymateb polisi yn y CDLl newydd.

3.18 Mae anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o yrru'r galw am lety arbenigol lle gellir darparu gofal i breswylwyr. Yn yr un modd, bydd gan bobl ag anableddau ac anghenion meddygol ofynion penodol ar gyfer llety byw â chymorth a fydd yn galluogi'r rhai sy'n fwy dibynnol i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.

3.19 Mae anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hamlinellu yn yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) 2022. Wedi'i gyflawni ar gyfer Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd, mae'r Asesiad yn nodi'r angen am leiniau preswyl yn yr Ynys yn y dyfodol.



DRAFT

***Seilwaith.***

3.20 Dylid cyfeirio datblygiadau at ardaloedd sydd â chysylltiadau da at seilwaith hanfodol, boed hynny mewn perthynas â charthffosiaeth a dŵr, nwy neu drydan. Dylid hefyd cyfeirio datblygiadau at ardaloedd lle mae mynediad at ofal iechyd ac addysg ar gael yn rhwydd. Lle byddai datblygiad yn arwain at bwysau ar wasanaethau o'r fath, dylid disgwyl cyfraniadau gan y datblygwr i alluogi addasu'r gwasanaeth.

3.21 Hefyd, o ystyried y pwysigrwydd a roddir ar gyfathrebu digidol ar gyfer anghenion bywyd a gwaith, dylid cyfeirio datblygiad lle bo cysylltedd o'r fath ar gael neu wedi'i gynllunio.

***Trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol***

3.22 Mae Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn nodi strategaeth 20 mlynedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy ar yr un pryd ag ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae'n cydnabod yr angen i newid y ffordd rydym yn teithio gyda llai o ddibyniaeth ar geir a defnyddio mwy ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio ar yr un pryd ag argymell lleihau'r angen i deithio. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy weithio mwy o gartref/o bell, cysylltedd ffisegol a digidol gwell i leihau'r ddibyniaeth ar geir a seilwaith trafnidiaeth a fyddai'n cefnogi dulliau teithio mwy effeithlon.

3.23 Er mwyn annog Teithio Llesol, dylid dylunio datblygiad newydd i fod yn addas ar gyfer cerdded neu feicio gyda chyfleusterau wedi'u lleoli wrth ymyl lle mae pobl yn byw.

3.24 Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru fapio a chynllunio ar gyfer llwybrau addas ar gyfer Teithio Llesol yn eu hardaloedd, a chymeradwywyd Map Rhwydwaith Teithio Llesol Ynys Môn gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022. Bydd lleoli datblygiad yn agos at lwybrau Teithio Llesol yn annog pobl i'w defnyddio, gan sicrhau manteision iechyd, lles ac amgylcheddol.

3.25 Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Drydedd Bont ar draws y Fenai yn 2018, ond ni wnaeth y prosiect ddatblygu oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i atal ei rhaglenni adeiladu ffyrdd. Mae achosion diweddar o dagfeydd sylweddol wedi arwain at ailedrych ar y mater, gydag adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023. Roedd yr adroddiad, er nad oedd yn cefnogi adeiladu pont newydd, yn cynnwys nifer o argymhellion a fydd yn arwain at oblygiadau o ran defnydd tir pe baent yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, gwrthododd y Cyngor ganfyddiadau'r Comisiwn gan nodi bod llawer o'r opsiynau a argymhellwyd, yr oedd casgliadau'r adroddiad yn seiliedig arnynt, wedi cael eu hystyried yn flaenorol gan y Cyngor ac na fyddent yn rhoi sylw digonol i'r diffyg gwytnwch sy'n bodoli. O ystyried hyn, byddai methu â darparu pont aml-ddull well yn gwaethygu heriau y mae economi a chymunedau Ynys Môn eisoes yn eu hwynebu.



DRAFT

3.26 Bydd yr angen i newid y ffordd y mae pobl yn teithio felly'n ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu polisïau ar gyfer y CDLl newydd a bydd diogelu llwybrau teithio llesol a chynaliadwy o bosibl yn hollbwysig i'r broses honno.

### *Cynllunio ar gyfer economi ffyniannus*

3.27 Mae Cynllun y Cyngor yn cyfeirio at yr Economi fel un o'i chwe amcan strategol sy'n egluro mai nod parhaus y Cyngor yw cefnogi busnesau presennol, denu buddsoddiad newydd priodol a chynyddu nifer y busnesau newydd wrth ymrwymo i sicrhau bod gan yr Ynys un o'r cyfraddau isaf o fusnesau sy'n cau ledled Cymru. Mae'r ymrwymiad i ailddatblygu hen safleoedd cyflogaeth (maes llwyd) yn glir, fel y mae cydweithio â thirfeddianwyr i gyflawni hyn.

3.28 Mae Gogledd Ynys Môn yn wynebu heriau economaidd yn fwy nag unrhyw ran arall o'r Ynys o ystyried bod nifer o gyflogwyr mawr yn yr ardal wedi diflannu dros y degawdau diwethaf. Yn unol â hynny, mae angen mynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu'r ardal er mwyn sicrhau ei ffyniant a'i lles yn y dyfodol. Mae Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn yn amlinellu amrywiaeth o ymyriadau i sicrhau gwelliannau a manteision parhaol i'r ardal. Bydd ymateb y CDLl newydd i'r sefyllfa economaidd yng ngogledd Ynys Môn yn cael ei lywio gan yr egwyddorion a amlinellir yn y Cynllun Adfywio Economaidd.

3.29 Mae'r angen i gadw'r boblogaeth oed gweithio i ysgogi adfywiad economaidd a chymunedol yn hollbwysig. O'r herwydd, mae'n bwysig meithrin a thyfu busnesau lleol yn ogystal â denu buddsoddiad newydd i Ynys Môn. Bydd y CDLl newydd yn ceisio galluogi twf busnes drwy ddyrannu tir cyflogaeth yn briodol ac yn gymesur.

3.30 Mae gan sicrhau statws Porthladd Rhydd y potensial i sicrhau newid trawsnewidiol mewn cymunedau ar draws Ynys Môn. Bydd angen i'r CDLl newydd ymateb i anghenion y Porthladd Rhydd a mynd i'r afael â materion sy'n deillio o roi statws. Dylai'r ymrwymiad i arloesi a buddsoddi a chefnogi talent leol ddarparu cyfleoedd i ddenu buddsoddiad sylweddol o'r tu allan i gefnogi ac amrywio sylfaen economaidd yr Ynys, gan greu swyddi cynaliadwy a hygyrch ar yr un pryd a fydd yn cyfrannu at gadw'r boblogaeth oed gweithio.

3.31 O ystyried y tir sydd wedi'i ymrwymo i'r Porthladd Rhydd, a fydd yn cynnwys cyfran fawr o dir cyflogaeth sydd wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, bydd angen ystyried ac asesu addasrwydd tir arall i'w ddyrannu at ddibenion economaidd cyffredinol. Mae prinder y tir sydd ar gael i'w ddatblygu at ddibenion cyflogaeth yng Nghaergybi a Llangefni eisoes wedi'u nodi tra bo Gaerwen yn cynnig lleoliad arall i ddarparu adnoddau ychwanegol yn y cyswllt hwn. Hefyd, bydd rôl tir llwyd o ran cyfrannu at fodloni gofynion tir cyflogaeth yn bwysig. Bydd perchnogion tir yn cael cyfle i gynnig tir at ddibenion o'r fath pan fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyhoeddi ei gais am safleoedd.

### *Cefnogi economi wledig a ffermio gref*

3.32 Gan ystyried pwysigrwydd parhaus amaethyddiaeth a gwasanaethau cysylltiedig i economi'r Ynys, bydd angen rhoi sylw i ofynion amaethyddol yn ogystal â chyfleoedd i gefnogi, cynnal ac amrywio'r economi wledig.

3.33 Hefyd, rhaid i'r sector ymateb i'r heriau a osodir gan newid yn yr hinsawdd ac adfer natur a, gyda newidiadau mewn pwyslais i'r fframwaith cymhorthdal amaethyddol, bydd mwy o bwyslais ar yr angen i arallgyfeirio busnesau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hyfyw. Bydd economi wledig fwy amrywiol yn gallu gwrthsefyll newid a chynnal cymunedau gwledig yn well.

### *Adfywio canol trefi*

3.34 Mae canol trefi'n cael ei ystyried yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Ynys Môn, ac maent yn ganolfannau ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau nad ydynt ar gael o bosibl mewn mannau eraill ar yr Ynys. Mae Strategaeth Gwella Canol Trefi 2023-2028 y Cyngor yn nodi fframwaith ar gyfer gwella apêl, hyfywedd a bywiogrwydd canol trefi. Gyda newidiadau mewn arferion siopa yn deillio o ddatblygiadau arloesol cymharol ddiweddar ac yn dod yn fwy cyffredin oherwydd pandemig covid, efallai y bydd mabwysiadu dull wedi'i addasu ar gyfer adfywio canol trefi yn briodol.

3.35 Mae prif ganolfannau trefol Ynys Môn, sef Caergybi, Llangefni ac Amlwch i gyd wedi gweld gostyngiad mewn meddiannaeth "traddodiadol" ar y stryd fawr, tra bod canolfannau Porthaethwy a Biwmares yn gymharol fywiog o'u cymharu. Mae Cynllun y Cyngor yn gosod y nod o wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi Ynys Môn a gellir cefnogi hyn gyda pholisïau priodol yn y CDLl newydd.

### *Economi Ymwelwyr*

3.36 Mae'r economi ymwelwyr yn hanfodol i ffyniant yr Ynys ac yn cynrychioli sector mwyaf yr economi leol. Mae Cynllun y Cyngor yn amlinellu ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi mewn seilwaith a fydd yn caniatáu i ymwelwyr fwynhau arfordir a chefn gwlad yr Ynys i'r graddau mwyaf posibl mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy tra bydd llwyddiant y mordeithiau sy'n ymweld ag Ynys Môn yn parhau i gael ei gefnogi.

3.37 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn egluro'r angen i reoli'r twf mewn twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau ffyniant hirdymor ar yr un pryd â lliniaru effeithiau amgylcheddol a chymunedol negyddol gyda'r bwriad o ddiogelu'r hyn sy'n gwneud yr Ynys yn ddeniadol i ymwelwyr yn y lle cyntaf.

### *Hybu cymunedau iach a chynaliadwy*

3.38 Mae lleoliad datblygiad yn chwarae rhan fawr o ran gwireddu'r uchelgais o gyflawni cymunedau iach. Gellir sicrhau ffyrdd iachach o fyw drwy leoli datblygiadau yn agos at lwybrau teithio llesol a bydd darparu/diogelu mannau agored cyhoeddus hefyd yn cyfrannu at annog ffordd fwy egnïol o fyw i drigolion. Gall darparu seilwaith i gefnogi pobl sy'n cerdded ac yn beicio yn hytrach na bod

yn ddibynnol ar geir gyfrannu at gyflawni amcanion iechyd sy'n ymwneud â gordewdra a chyflyrau cysylltiedig.

3.39 Bydd yr angen i ystyried llwybrau teithio llesol a chynaliadwy a'u diogelu i wasanaethu datblygiad newydd posibl yn nodwedd bwysig o'r CDLl newydd.

### *Asedau a chyfleusterau cymunedol*

3.40 Mae cyfleusterau o'r fath yn hanfodol i gynnal sylfaen economaidd, gymdeithasol a diwylliannol aneddiadau a chymunedau. Gall eu presenoldeb leihau'r angen i deithio i ganolfannau mwy a gallant gyfrannu at les cymuned yn ogystal â bod yn elfen hanfodol o greu lleoedd llwyddiannus. Mae eu diogelu rhag mathau eraill o ddatblygiadau yn hanfodol er mwyn helpu i gynnal cydlyniant cymunedol a dylai polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol geisio cefnogi eu cadw ar gyfer defnydd cymunedol.

### *Cynllunio ar gyfer lles a chydraddoldeb*

3.41 Mae Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a difreintiedig, gyda'r canlynol yn cael eu nodi gan breswylwyr fel y blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw:

- ymateb i dlodi a chostau byw;
- gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc;
- gwella iechyd meddwl a lles;
- newid yn yr hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau sero net;
- hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg;
- galluogi profiadau cyfartal a mynediad at natur;
- cynllunio gweithlu'r dyfodol sy'n diwallu anghenion y gymuned a'r economi leol;
- sicrhau tai ar gyfer pobl leol; a
- dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus.

3.42 Dylai'r CDLl newydd anelu at greu a chynnal cymunedau cynhwysol sy'n hybu iechyd a lles. Wrth wneud hynny, dylai geisio, drwy ei bolisïau, gyrraedd safonau uchel o ran amwynder a meithrin cymunedau diogel sy'n eu gwneud yn lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt.

### *Creu lleoedd yn lleol*

3.43 Mae'r Cyngor yn paratoi Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer trefi'r Ynys. Mae'r nod o wella eu bywiogrwydd a'u hyfywedd yn hanfodol wrth greu lleoedd lleol ac yn elfen allweddol o ddarparu canolfannau cynaliadwy a ffyniannus sy'n eu gwneud yn fwy deniadol fel mannau i fyw ynddynt.

3.44 Mewn perthynas ag ardaloedd gwledig, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod, wrth gyfrannu at ganlyniadau creu lleoedd, bod yn rhaid gwarchod a gwella cefn gwlad er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, diwylliannol ac amaethyddol yn ogystal â'i dirweddau a'i adnoddau naturiol.



DRAFT

3.45 Felly, mae angen galluogi datblygu aneddiadau bywiog, cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddynt.

**Gwarchod a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol**

3.46 Roedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau Adran 6, sy'n golygu ei bod yn ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

3.47 Mae Polisi 10 Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cydnabod rôl bioamrywiaeth o ran cefnogi "gweithrediad ecosystemau iach a chadarn a'r manteision lluosog maent yn eu darparu" ac mae'n ymrwymo i ddadwneud colledion diweddar a gwella cydnerthedd ecosystemau. Mae'r system gynllunio yn cael ei nodi fel un sy'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni'r amcan hwn.

3.48 Mewn ymateb i ddyletswydd Adran 6, mae'r Cyngor wedi paratoi a mabwysiadu Cynllun Bioamrywiaeth sy'n ceisio sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth amrywiol yr Ynys wrth arfer ei ddyletswyddau statudol a'i weithgareddau dewisol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cadernid ecosystemau.

3.49 Rhaid i'r CDLl newydd adlewyrchu'r ymrwymiadau a wneir yn y ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol ac yn y Cynllun Bioamrywiaeth corfforaethol i warchod a gwella bioamrywiaeth ar yr un pryd â chryfhau seilwaith gwyrdd i alluogi cydnerthedd a chysylltedd rhwng rhwydweithiau ecolegol.

3.50 Mae gwarchod a gwella harddwch naturiol yn gysylltiedig â gwarchod a gwella bioamrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o forlin yr Ynys (221km$^2$) wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae'r Cynllun Rheoli AHNE 2023-28 yn atgyfnerthu'r angen i warchod a gwella harddwch naturiol ac yn cydnabod pwysigrwydd yr ardal ddynodedig i'r economi leol, i'r amgylchedd, i ddiwylliant ac i les ei chymunedau ac i'r rhai sy'n ymweld.

### *Yr amgylchedd hanesyddol*

3.51 Mae gan Ynys Môn amrywiaeth o asedau hanesyddol gan gynnwys tua 1200 o adeiladau rhestredig, 12 o Ardaloedd Cadwraeth dynodedig, Safle Treftadaeth y Byd a nifer o henebion cofrestredig. Y flaenoriaeth yw diogelu'r asedau hanesyddol hyn a'u gwarchod rhag cael eu hesgeuluso a dirywio.

3.52 O'r herwydd, bydd yr CDLl newydd yn darparu sylfaen polisi gref ar gyfer rhoi gwarchodaeth i'r amgylchedd hanesyddol a sicrhau y bydd unrhyw ddatblygiad a gynigir mewn perthynas ag asedau hanesyddol yn cael ei gyflawni gyda'r budd pennaf i'r ased yn brif ystyriaeth.

### *Adnoddau mwynau*

3.53 Mae'r polisi a'r canllawiau presennol yn nodi bod pob Awdurdod Cynllunio Mwynau (MPA) yn bodloni gofynion banc tir penodol o ran darpariaeth agregau, sef cyflenwad 10 mlynedd o agregau craig galed a 7 mlynedd ar gyfer tywod a



DRAFT

graean. Rhaid cynnal banciau tir dros oes cynllun datblygu. Yn ymarferol, ni all Ynys Môn fodloni'r gofyniad am dywod a graean gan nad oes dim gweithrediadau masnachol ar yr Ynys ac er bod dyddodion tywod a graean yn bodoli, maent mewn ardaloedd sy'n ddarostyngedig i ddynodiadau amgylcheddol a fyddai'n golygu y byddai gweithio yno yn annerbyniol. O ran mwynau economaidd eraill, mae cronfeydd metel wrth gefn i'w cael ym Mynydd Parys ac mae cerrig dimensiwn yn cael eu tynnu o chwareli calchfaen yr Ynys.

3.54 Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) Gogledd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob MPA yn y rhanbarth gyfrannu swm o agregau wedi'i ddosrannu i'r allbwn rhanbarthol a dylai gynllunio yn unol â hynny i fodloni'r gofynion hynny.

3.55 Mae adfer safleoedd yn ystyriaeth bwysig iawn i fynd i'r afael ag effaith amgylcheddol gwaith chwarela/cloddio. Bydd yr agwedd hon ar y broses ôl-echdynnu yn cael sylw digonol yn y CDLl newydd.

### *Adfer adnoddau a rheoli gwastraff*

3.56 Mae'r Hierarchaeth Gwastraff yn nodi'r flaenoriaeth o ran ymateb i reoli gwahanol ffrydiau gwastraff. Mae'r Hierarchaeth yn annog lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu (gan gynnwys compostio) cyn gwaredu er mai dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi yw'r prif amcan o hyd.

3.57 Mae Cynllun Strategol Adnoddau a Gwastraff y Cyngor yn amlinellu camau i symud tuag at economi gylchol sy'n gweithio tuag at ddarparu ymateb cynaliadwy i reoli gwastraff ac adfer adnoddau sy'n adlewyrchu amcanion cenedlaethol sydd wedi'u cynnwys yn yr Hierarchaeth Gwastraff.

3.58 Bydd angen i'r CDLl newydd fynd i'r afael â mater rheoli gwastraff mewn ffordd sy'n gyson â nodau'r Hierarchaeth a, lle nad oes modd lleihau ac ailddefnyddio, dylid ystyried gwastraff fel adnodd y gellir ei reoli gyda chanlyniadau buddiol. Dylai'r CDLl newydd felly geisio hwyluso mwy o gapasiti ailgylchu a chompostio tra'n ystyried cynhyrchu ynni o ffrydiau gwastraff addas.

3.59 Er mwyn sicrhau cyfraddau ailddefnyddio ac ailgylchu uwch, rhaid i'r cyfleusterau priodol fod ar gael ac, er bod y Cyngor eisoes yn rhedeg dwy ganolfan ailgylchu, mae diffygion yn y ddarpariaeth wedi'u nodi yn ardal Caergybi, lle mae tipio anghyfreithlon yn broblem sylweddol ac yng ngogledd yr Ynys. Yn yr un modd, mae'r diffyg capasiti ar gyfer rheoli gwastraff anadweithiol a phriddoedd gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLl newydd fynd i'r afael â'r materion hyn ac ystyried atebion priodol.

### *Trosolwg*

3.60 Bydd y materion a'r heriau hyn yn effeithio ar ddatblygiad Ynys Môn yn y dyfodol ac, o'r herwydd, bydd yn rhaid i'r polisïau a ddatblygir ar gyfer y CDLl newydd fod yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol. Hefyd, rhaid i bolisïau o'r fath fod yn ddigon effeithiol i gynnig cadernid yn y dyfodol pan fydd amgylchiadau'n newid mewn perthynas â chymeriad amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol a diwylliannol yr Ynys. Rhaid i bob datblygiad yn y dyfodol

fodloni meini prawf cynaliadwyedd tra'n cydymffurfio â blaenoriaethau allweddol y Cyngor, ac amcanion polisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol.

## 4.0 Gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn erbyn 2039

4.1 Y Weledigaeth arfaethedig ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol newydd Ynys Môn yw:

> ***Erbyn 2039, bydd Ynys Môn yn ynys o gymunedau bywiog, dwyieithog ac ymgysylltiol lle mae pobl yn dewis byw, gweithio ac ymweld, ac wedi ymrwymo i gydnerthedd ei heconomi, ei diwylliant, ei threftadaeth, ei hamgylchedd a'i hadnoddau naturiol ac iechyd a lles.***

## 5.0 Gosod Amcanion

5.1 Er mwyn gwireddu'r Weledigaeth, cynigir 18 o Amcanion ar gyfer y CDLl newydd. Mae'r Amcanion wedi cael eu cofnodi o dan benawdau pwnc eang sy'n cyd-fynd â'r amcanion strategol a nodir yng Nghynllun y Cyngor (2023-28), gyda'r pynciau hyn yn deillio o'r materion a'r heriau allweddol a nodwyd yn flaenorol. Mae penawdau bras y pynciau yn cynnwys y canlynol:

- Newid yn yr hinsawdd
- Y Gymraeg a'i diwylliant
- Cartrefi a Seilwaith
- Economi Gynaliadwy a Bywiog
- Creu Lleoedd a Lles
- Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

## 6.0 Amcanion Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ynys Môn (2025-2039)

### 6.1 Newid yn yr Hinsawdd

Mater Allweddol 1: Newid yn yr Hinsawdd a Sero Net

*Amcan 1a – Newid yn yr Hinsawdd*
Cefnogi mesurau i leihau allyriadau carbon a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd, gan ymateb i gynhesu byd-eang a chefnogi cymdeithas i addasu'r ffordd mae'n gweithio, yn byw ac yn defnyddio tir, gan feithrin cadernid rhag effeithiau hinsawdd sy'n newid.

*Amcan 1b - Carbon isel ac Ynni adnewyddadwy*

DRAFT

Cefnogi'r newid i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel drwy hwyluso'r gwaith o ddatblygu seilwaith priodol sy'n gwireddu manteision ystyrlon ac yn lliniaru effeithiau negyddol.

## 6.2 Y Gymraeg a'i Diwylliant

Mater Allweddol 2: **Yr Iaith Gymraeg**

*Amcan 2 – Yr Iaith Gymraeg*
Sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cynllunio'n briodol i alluogi'r Gymraeg i ddatblygu a ffynnu, gan wneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## 6.3 Cartrefi a Seilwaith

Mater Allweddol 3: Darparu Cartrefi Newydd
Mater Allweddol 4: Seilwaith.
Mater Allweddol 5: Trafnidiaeth Gynaliadwy

*Amcan 3 - Cartrefi Newydd*
Hwyluso'r gwaith o ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o dai sydd eu hangen i ddiwallu'r galw am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig. Bydd cartrefi o'r fath yn gallu gwrthsefyll yr hinsawdd ac yn hygyrch i wasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen ar breswylwyr yn ogystal ag ystyried anghenion a gofynion arbenigol poblogaeth sy'n heneiddio a'r angen i ddarparu digon o dai fforddiadwy.

*Amcan 4 – Seilwaith*
Sicrhau bod seilwaith ffisegol a digidol digonol yn bodoli i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol yn ardal y Cynllun, gyda'r rhan fwyaf o'r twf hwnnw i'w ganoli mewn ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu orau gan seilwaith, cyfleustodau a gwasanaethau presennol neu arfaethedig.

*Amcan 5 – Trafnidiaeth Gynaliadwy a Theithio Llesol*
Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu lleoli i leihau'r angen i deithio a'u bod wedi'u dylunio i fod yn addas ar gyfer cerdded neu feicio, gyda chyfleusterau wedi'u lleoli wrth ymyl lle mae pobl yn byw.

## 6.4 Economi Gynaliadwy a Bywiog

Mater Allweddol 6: Cynllunio ar gyfer economi ffyniannus
Mater Allweddol 7: Cefnogi economi wledig gref
Mater Allweddol 8: Adfywio canol trefi
Mater Allweddol 9: Economi ymwelwyr

*Amcan 6 – Cynllunio ar gyfer Economi sy'n Ffynnu*
Annog ffyniant economaidd drwy gefnogi busnesau presennol a denu buddsoddiad newydd i wella sgiliau a chyfleoedd gwaith ar yr Ynys a, thrwy wneud hynny, galluogi cadw'r boblogaeth oed gweithio a chyfrannu at gymunedau mwy cynaliadwy a hyfyw.

*Amcan 7 – Cefnogi Economi Wledig Gref*
Parhau i ddarparu cyfleoedd datblygu ar gyfer arallgyfeirio'r economi wledig ar yr un pryd â darparu cymorth i ddiwydiannau gwledig sylfaenol fel ffermio i sicrhau eu hyfywedd a'u cadernid parhaus.

*Amcan 8 – Adfywio Canol Trefi*
Cefnogi datblygiadau sy'n gwella bywiogrwydd a hyfywedd strydoedd a chanol trefi Ynys Môn gyda'r bwriad o wella a diogelu canolfannau manwerthu lleol ar yr Ynys.

*Amcan 9 – Economi Ymwelwyr*
Cefnogi datblygiadau twristiaeth priodol a fydd yn cyfrannu at dwf cynaliadwy'r economi ymwelwyr gan sicrhau bod y nodweddion sy'n cyfrannu at atyniad yr Ynys fel cyrchfan yn cael eu diogelu'n ddigonol.

## 6.5 Creu Lleoedd a Lles

Mater Allweddol 10: Cymunedau iach a chynaliadwy
Mater Allweddol 11: Asedau a chyfleusterau cymunedol
Mater Allweddol 12: Lles a chydraddoldeb
Mater Allweddol 13: Creu lleoedd yn lleol

*Amcan 10 – Cymunedau Iach a Chynaliadwy*
Hyrwyddo a chefnogi cymunedau mwy diogel, iachach, cynhwysol a mwy cysylltiedig drwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwireddu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gwell ac yn creu lleoedd cynaliadwy sy'n diwallu anghenion eu holl drigolion.

*Amcan 11 – Asedau a Chyfleusterau Cymunedol*
Sicrhau bod cymunedau'n cael ystod o gyfleusterau allweddol sy'n darparu mynediad digonol i hamdden, adloniant, diwylliant, iechyd, addysg a mannau agored cyhoeddus. Dylai datblygiad a allai effeithio ar y defnydd o gyfleusterau o'r fath a'u hargaeledd geisio gwella'r ddarpariaeth.

*Amcan 12 – Lles a Chydraddoldeb*
Sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn cyfrannu at greu a chynnal cymunedau cynhwysol sy'n hybu iechyd a llesiant drwy integreiddio safonau uchel o ran amwynder a meithrin amgylcheddau diogel i bawb.

*Amcan 13 – Creu Lleoedd yn Lleol*
Mabwysiadu dull creu lleoedd i alluogi datblygu aneddiadau ffyniannus sy'n parchu eu lleoliadau ac yn hyrwyddo dylunio da â naws lleol sy'n ymateb i gymeriad lleol ac sy'n cyfrannu at gyflawni aneddiadau cynaliadwy a ffyniannus sy'n eu gwneud yn fwy deniadol fel lleoedd i fyw a gweithio ynddynt.

## 6.6 Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

Mater Allweddol 14: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth



DRAFT

Mater Allweddol 15: Diogelu'r amgylchedd hanesyddol
Mater Allweddol 16: Adnoddau mwynau
Mater Allweddol 17: Adfer adnoddau a rheoli gwastraff

*Amcan 14 – Bioamrywiaeth*
Diogelu a gwella bioamrywiaeth yr Ynys rhag effeithiau datblygiadau, gan gyfrannu at gynnal rhwydweithiau ecolegol cadarn a chysylltiedig a gwella seilwaith gwyrdd.

*Amcan 15 – Amgylchedd Hanesyddol*
Darparu sylfaen gref o bolisïau sy'n gwarchod yr amgylchedd hanesyddol drwy sicrhau bod unrhyw ddatblygiad sy'n cael ei gynnig yng nghyswllt asedau hanesyddol yn cael ei arwain gan fuddiannau pennaf yr asedau hynny ac yn parchu cymeriad a natur unigryw'r ardal.

*Amcan 16 – Mwynau*
Diogelu adnoddau mwynol rhag cael eu sterileiddio gan sicrhau bod banc tir digonol o fwynau agregau yn cael ei gynnal yn unol â'r gofynion presennol i ddiwallu anghenion cymdeithas yn gynaliadwy.

*Amcan 17 – Rheoli Gwastraff*
Hwyluso darpariaeth ddigonol o gyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy a fydd yn cyfrannu at ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosibl o wastraff a, thrwy wneud hynny, symud tuag at economi gylchol.

DRAFT

# Atodiad 1

**Cyngor Ynys Môn: Cynlluniau a Strategaethau Perthnasol**

| Cynllun/Strategaeth | Dyddiad(au) gweithredol |
|---|---|
| Cynllun y Cyngor | 2023-28 |
| Cynllun Tuag at Sero Net | 2022-25 |
| Cynllun Gweithredu Ynni Lleol | - |
| Rhaglen Ynys Ynni | - |
| Strategaeth Hyrwyddo yr Iaith Gymraeg | 2021-26 |
| Strategaeth Tai | 2022-27 |
| Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) | 2022 |
| Map Rhwydwaith Teithio Llesol | 2022-37 |
| Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn | - |
| Strategaeth Gwella Canol Trefi | 2023-28 |
| Cynllun Rheoli Cyrchfan | 2023-28 |
| Cynllun Rheoli AHNE | 2023-28 |
| Cynlluniau Creu Lleoedd | - |
| Cynllun Bioamrywiaeth | 2021-22 |
| Cynllun Strategol Adnoddau a Gwastraff | 2023-28 |

DRAFT

| Isle of Anglesey County Council | |
|---|---|
| Report to: | Pwyllgor Polisi Cynllunio |
| Date: | 14eg Mai 2025 |
| Subject: | Cadarnhad o lansiad yr Alwad am Safleoedd (er gwybodaeth yn unig) |
| Portfolio Holder(s): | Cyng. Nicola Roberts (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd) |
| Head of Service / Director: | Christian Branch<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio & Datblygu Economaidd |
| Report Author:<br>Tel:<br>E-mail: | John I. Williams (Rheolwr Polisi Cynllunio)<br><br>JohnWilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| Local Members: | Perthnasol i bob Aelod Etholedig |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae'r adroddiad yma'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Cadarnhau lansiad y broses i alw am safleoedd;
- Amlinellu cwmpas y cyfnod amser perthnasol; a'r
- Camau nesaf wedi'r cyfnod o alw am safleoedd ddod i ben.

**2.0 Y penderfyniad a geisir**

2.1 Cyflwynir y diweddariad yma i'r Pwyllgor er gwybodaeth yn unig o ystyried lansiad y broses ar 12 fed o Fai 2025 ac nad oes angen penderfynaid ar ran y Pwyllgor. Rhaid nodi bod y cam yma o'r broses o baratoi cynllun wedi'i gymeradwyo fel rhan o'r amserlen a gynhwysir yn y Cytundeb Cyflawni.

**3.0 Cefndir ac ystyriaethau perthnasol**

3.1 Bydd yr alwad yn fyw dros gyfnod o chwe wythnos rhwng 12 Mai a 23 Mehefin 2025. Bydd yn gwahodd tirfeddianwyr I gynnig safleodd ar gyfer eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd (CDLl) ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol neu i'w diogelu rhag eu datblygu fel yr angen.

3.2 Bydd y safleoedd sy'n cael eu cynnig yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf gosodol er mwyn sefydlu eu haddasrwydd ar gyfer eu cynnwys yn y CDLl newydd. Bydd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei chadw a bydd y gofrestr yn cynnwys pob safle caiff ei chynnig hyd yn oed os nad ydynt yn mynd ymlaen i'w hystyried fel safleoedd gyda'r potensial i'w datblygu a'u cynnwys yn y CDLl.

3.3 Mi fydd angen i bob safle fydd yn mynd ymlaen fel safle a’r potensial I’w datblygu allu profi eu dichonoldeb ac eu bod yn gyflawnadwy. O ganlyniad, bydd raid I gynigwyr ddarparu asesiadau dichonoldeb ar yr amser yma o ystyriaeth os am ystyried y safleoedd ymhellach ar gyfer eu cynnwys yn y CDLl.

3.4 Bydd asesu’r safleoedda’u cynigir yn dilyn proses dau-gam gyda ymgynghoriad hefo adrannau perthnasol o’r awdurdod lleol, megis priffyrdd ac addysg, ynghyd â chyrff ymgynghori penodol, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Dŵr Cymru (gan gynnwys gweithredwyr cyfatebol yng Nghymru a Lloegr) a Byrddau Iechyd (o ran y Profion Cadernid). Dylai hyn sicrhau mai dim ond ar safleoedd sydd â chyfle rhesymol o gael eu cynnwys yn y CDLl y mae cyrff o'r fath yn gwneud sylwadau.

3.5 Mae camau strategaeth a ffefrir ac adneuo'r broses o baratoi CDLl yn rhoi cyfle i bob rhanddeiliad roi sylwadau ar y safleoedd arfaethedig; cyflwyno sylwadau’n gofyn am newid ffiniau'r dyraniadau, neu gynnig dileu neu ychwanegu safleoedd newydd.

**4.0 Argymhelliad**

4.1 Bod y Pwyllgor yn derbyn y trosolowg o’r broses o alw am safleoedd.

DRAFT